**COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**

**CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO AC ATAL RISG A GYNHALIWYD DDYDD MERCHER 29 GORFFENNAF 2019 YN NHŶ HASTINGS (13:30 – 15:00)**

**Aelodau CFfDLC yn bresennol:** David Powell (Cadeirydd Dros Dro), Theo Joloza (Aelod), Julie James (Aelod Annibynnol)

**Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru:** Mark Jones

**Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru:** Lisa James

**Cynrychiolydd Cymwysterau Cymru:** Sean Gaffney

**Swyddogion CFfDLC:** Shereen Williams (Prif Weithredwr) Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr), David Carr (Rheolwr Cyllid), David Burley (Rheolwr Cymorth Busnes)

**1. Ymddiheuriadau ar gyfer absenoldeb**

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Ian Howse (Deloitte) a Lauren Parsons (Deloitte).

**2. Datganiadau o fuddiant**

2.1 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**3. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2019**

3.1 **Cytunwyd** y dylid rhannu'r testun ym mharagraff 6.2 yn ddau baragraff. **Penderfynwyd** mabwysiadu cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2019, yn amodol ar y mân newid a ddisgrifir uchod.

**4. Materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol**

4.1 Nododd y Pwyllgor fod mwyafrif yr eitemau sy'n codi o'r cyfarfod blaenorol wedi'u cwblhau erbyn hyn, neu yr eir i'r afael â nhw'n ddiweddarach ar yr agenda.

4.2 Roedd eitemau a oedd yn weddill, sef:

- Ni dderbyniwyd copïau o sicrwydd archwiliad mewnol TGCh Llywodraeth Cymru, er i nodyn atgoffa gael ei anfon;
- Byddai'r mater o ddyrannu meddalwedd Sage i aelod staff ychwanegol yn cael ei roi ar waith ar ôl adolygiad o aelodau staff, gan gynnwys sesiynau un-i-un;
- Byddai cyfarfod y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn cael ei gynnal ar 31 Gorffennaf, a byddai papur ar y canfyddiadau archwilio mewnol yn cael ei ystyried yn y cyfarfod hwnnw; ac
- Roedd trafodaethau â Deloitte ynghylch nifer y diwrnodau archwilio sydd eu hangen i archwilio cydymffurfiad y Comisiwn â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn mynd rhagddynt.

## 5. Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg 2019-20

5.1 Crybwyllwyd bod Cynllun Gwaith wedi'i ddrafftio ar gyfer 2019-20. Nodwyd bod dyddiadau'r cyfarfodydd yn anghywir ac y byddai angen eu diwygio.

5.2 Yn sgil y posibilrwydd o Brexit heb gytundeb, cynigiwyd y byddai diweddariad llafar ar yr effaith bosibl ar etholwyr, a blaenoriaethau adrannau'r llywodraeth, yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio at Atal Risg ym mis Tachwedd ac i gyfarfod o'r Comisiwn.
**Gweithredu**: Prif Weithredwr **Erbyn**: 27 Tachwedd 2019

5.3 **Nododd** y Pwyllgor gynnwys Cynllun Gwaith 2019-20 a **chytuno** arno.

## 6. Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg

6.1 Nododd y Pwyllgor gynnwys y Cylch Gorchwyl, a **chytuno** arno'n amodol ar y newidiadau canlynol:

- Ym mharagraff 1.3, dylid newid 'Deputy Permanent Secretary' i 'Director General';
- Ym mharagraff 8.1 pwynt bwled 10, dylid newid 'Management Letter' i 'Audit of Financial Statements Report'; ac
- Ym mharagraff 8.1 pwynt bwled 10, dylid newid 'or any other external' i 'and any other external'.

**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 27 Tachwedd 2019

## 7. Cyfrifon Blynyddol 2018-19 a'r Archwiliad o'r Adroddiad ar y Datganiadau Ariannol

7.1 Nodwyd bod CFfDLC wedi nodi'r datganiadau ariannol a'r cyfrifon drafft yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2019.

7.2 Crybwyllodd Mark Jones y derbyniwyd y cyfrifon yn brydlon a'u bod o safon dda iawn. O ganlyniad, aeth y gwaith archwilio rhagddo'n rhwydd. Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol oedd cyhoeddi adroddiad archwilio diamod, cyn belled â na fydd unrhyw ddigwyddiadau'n effeithio ar y cyfrifon ar ôl eu llofnodi.

7.3 Nid oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro yn y cyfrifon, nac unrhyw faterion neu argymhellion sylweddol yn deillio o'r archwiliad. Er bod y rhan fwyaf o'r newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r archwiliad yn fân newidiadau i'r cyflwyniad a'r adroddiant, roedd dau gamddatganiad sylweddol a gywirwyd yn y cyfrifon, sef:

- Diwygiwyd y ffigur a ddatgelwyd ar gyfer cyflog y Prif Weithredwr yn yr Adroddiad Cyflogau i ddangos y cyflog gwirioneddol a dderbyniwyd, yn hytrach na swm blynyddol;
- Roedd taliadau prydles amcangyfrifedig y dyfodol yn y nodiadau i'r cyfrifon wedi'u cyfrifo ar sail y nifer anghywir o flynyddoedd, ac wedi'u diwygio'n unol â hynny.

7.4 Roedd un argymhelliad archwilio wedi codi o ganlyniad i'r archwiliad, sef y dylai'r Comisiwn dynhau ei reolaethau o ran awdurdodi taliadau bancio ar-lein. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan reolwyr ac roedd trefniadau bancio amgen yn cael eu hystyried. Yn y cyfamser, roedd y Comisiwn wedi mabwysiadu system lle caiff yr holl daliadau banc ar-lein eu hadolygu'n fisol gan y Prif Weithredwr.

7.5 Holodd y Cadeirydd a fyddai mabwysiadu safon cyfrifyddu IFRS 16 yn effeithio ar gyllidebau'r Comisiwn yn y dyfodol. Atebodd Mark Jones fod y newid o ran cyfrifyddu'n annhebygol o gael effaith sylweddol ar gyllideb flynyddol y Comisiwn. Ni fydd y safon newydd yn caniatáu cyfrif am brydles fel prydles gweithredu ar sail refeniw, gyda phob prydles i'w chyfalafu ac felly ei 'dal' ar y fantolen. Byddai'r sylfaen gyfrifyddu newydd hon yn arwain at dâl dibrisiant blynyddol ar gyfer prydlesi wedi'u cyfalafu, y byddai angen darpariaeth ar eu cyfer yn y gyllideb o hyd.

7.6 Diolchodd y Cadeirydd i Mr Jones am ei adroddiad. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid mabwysiadu a llofnodi'r cyfrifon archwiliedig.

## 8. Arweiniad Swyddfa Archwilio Cymru i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu

8.1 Cyhoeddwyd yr arweiniad gan Swyddfa Archwilio Cymru i helpu cyrff i ddeall y broses sy'n cael ei defnyddio wrth ymdrin â chamddatganiadau a nodir wrth archwilio cyfrifon.

8.2 **Nododd** y Pwyllgor arweiniad Swyddfa Archwilio Cymru.

## 9. Cynllun Archwilio Mewnol a Chylch Gorchwyl 2019-20

9.1 Ystyriodd y Pwyllgor Cynllun Archwilio Mewnol Deloitte ar gyfer 2019-20 ymlaen, ynghyd â'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr archwiliadau mewnol canol blwyddyn a diwedd blwyddyn. Byddai'r gwaith archwilio mewnol sydd wedi'i gynllunio ar gyfer 2019-20 yn cwmpasu Rheolaethau Cyffredinol TGCh, Bancio a Rheoli Arian Parod, Llywodraethu Corfforaethol, Rheoli Risg, Arolygon Etholiadol a gweithgarwch dilynol ar argymhellion y flwyddyn gynt.

9.2 O ran y penderfyniad blaenorol i ofyn i Deloitte gynnwys archwiliad o gydymffurfiad y Comisiwn â gofynion y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data fel rhan o'i gynllun archwilio ar gyfer 2019-20, crybwyllwyd bod Deloitte wedi nodi y gallai fod angen 5 diwrnod archwilio ychwanegol. Roedd y Comisiwn o'r farn bod hyn yn ymddangos yn ormodol yn sgil lefel isel y wybodaeth sy'n cael ei dal gan y Comisiwn sy'n cael ei chwmpasu gan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Cytunwyd y byddai'r Rheolwr Cyllid yn cysylltu â Deloitte i gadarnhau eu dealltwriaeth o ofynion y gwaith archwilio y gofynnwyd amdano.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Awst 2019

9.3 **Cytunodd** y Pwyllgor ar y Cynllun Archwilio mewnol a'r Cylch Gorchwyl ar gyfer gwaith archwilio mewnol 2019-20, yn amodol ar gadarnhad o ofyniad archwilio'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data ac unrhyw newidiadau arfaethedig dilynol.

## 10. Asesiad Archwilio Mewnol Blynyddol CFfDLl 2018-19

10.1 Crybwyllwyd bod Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn a'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg wedi cwblhau eu hasesiad blynyddol o archwilio mewnol ar gyfer 2018-19. Nododd y Pwyllgor gasgliadau'r asesiad, sef bod annibyniaeth a pherfformiad Archwilio Mewnol o safon uchel ac wedi bodloni'r safonau yn ymwneud â sicrhau ansawdd.

## 11. Argymhellion Archwilio – Adroddiad ar Gynnydd

11.1 Ystyriodd y Pwyllgor gynnydd yn erbyn yr argymhellion archwilio mewnol sy'n weddill.

11.2 Erbyn hyn, mae'r argymhelliad sy'n weddill o 2016-17 o ran rhoi proses monitro ar waith ar gyfer amserlen cadw cofnodion wedi'i roi ar waith erbyn hyn.

11.3 Mae'r argymhelliad archwilio allanol sy'n weddill o 2017-18m sef y dylai'r Comisiwn sicrhau bod gan ei system TGCh newydd reolaethau cadarn ar gyfer storio data a chadw copïau wrth gefn wedi'i roi ar waith yn ddiofyn, gan fod y system wedi'i seilio ar gwmwl ac mae Microsoft yn ymdrin â storio a chadw copïau wrth gefn. Nodwyd bod Cymwysterau Cymru wedi nodi lle mae data'r Comisiwn yn cael ei storio erbyn hyn. **Cytunwyd** y byddai sicrwydd pellach yn cael ei geisio gan Cymwysterau Cymru.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 27 Tachwedd 2019

11.4 Nid oedd yr argymhelliad sy'n weddill o archwiliad mewnol 2017-18, sef y dylid adolygu polisïau CFfDLC, wedi'i roi ar waith oherwydd blaenoriaethau eraill. Cafodd dyddiad gweithredu diwygiedig, sef 30 Medi 2019, ei gynnig a'i **gytuno**.

11.5 Nid oedd yr argymhelliad sy'n weddill o archwiliad mewnol 2017-18, sef y dylid diweddaru Polisi Teithio a Chynhaliaeth CFfDLC, wedi'i roi ar waith oherwydd oedi wrth geisio sicrhau trefniadau yswiriant teithio addas. Nodwyd bod sefydliadau tebyg eraill yn dwyn eu risg eu hunain. Pe byddai'r Comisiwn yn penderfynu mabwysiadu'r un dull, gellid rhoi'r argymhelliad archwilio sy'n weddill ar waith. **Cytunwyd** y byddai'r mater hwn yn cael ei godi yng nghyfarfod nesaf y Comisiwn, ac y byddai penderfyniad yn cael ei geisio ynghylch p'un a ddylai'r Comisiwn barhau i geisio sicrhau yswiriant teithio neu a ddylid goddef y risg.
**Gweithredu**: Rheolwr Cymorth Busnes **Erbyn**: 30 Gorffennaf 2019

11.6 Nid oedd yr argymhelliad sy'n weddill o archwiliad mewnol 2018-19, sef y dylid drafftio a mabwysiadu rhestr wirio ar gyfer arolygon seneddol y Comisiwn Ffiniau i Gymru, wedi'i roi ar waith oherwydd blaenoriaethau eraill. Cynigiwyd a **chytunwyd** ar ddyddiad gweithredu diwygiedig, sef 31 Mawrth 2020.

11.7 Roedd yr argymhelliad a oedd yn weddill o archwiliad mewnol 2018-19, sef y dylai pob rhestr wirio ar gyfer arolygon gorffenedig gael ei wirio a'i lofnodi gan y Swyddog Arolygon, wedi'i roi ar waith erbyn hyn.

11.8 Roedd yr argymhelliad a oedd yn weddill o archwiliad mewnol 2018-19, sef y dylai ffeil arolwg gael ei gwirio gan y Swyddog Arolygon ar ôl cwblhau arolwg, er mwyn sicrhau bod yr holl gopïau o ddogfennau allweddol pwysig wedi'u cadw yn y ffeil, wedi'i roi ar waith erbyn hyn.

11.9 Roedd yr argymhelliad a oedd yn weddill o archwiliad mewnol 2018-19, sef y dylid atgoffa staff i lenwi rhestr wirio sicrhau ansawdd yr arolwg yn llawn, ac yna y dylai dau aelod staff arolygu gwahanol ei llofnodi, wedi'i roi ar waith erbyn hyn.

11.10 Roedd yr argymhelliad a oedd yn weddill o archwiliad mewnol 2018-19, sef y dylid cwblhau gwiriad bob pythefnos er mwyn sicrhau yr ymatebwyd i bob un o sylwadau'r arolwg erbyn yr amser ymateb targed, wedi'i roi ar waith erbyn hyn.

## 12. Rhestr Colledion 2018-19

12.1 Nododd y Pwyllgor fod y Comisiwn wedi cofnodi colledion a oedd yn dod i gyfanswm o £109 yn ystod 2018-19, o ganlyniad i bost wedi'i ffrancio'n anghywir, colli mân ased a thalu dirwy barcio a gafwyd gan aelod staff ar fusnes swyddogol. Nodwyd adroddiad 'gwersi a ddysgwyd' hefyd, yn manylu ar fesurau lliniaru arfaethedig er mwyn osgoi ailadrodd y digwyddiad a arweiniodd at ddirwy barcio.

## 13. Profi Cynllun Parhad Busnes 2019-20

13.1 Ystyriodd y Pwyllgor ganlyniad prawf blynyddol CFfDLC o'r Cynllun Parhad Busnes, a oedd wedi cynnwys cyfranogiad gael Aelod o'r Pwyllgor am y tro cyntaf. Nodwyd y gwnaed newidiadau sylweddol i'r cynllun ar ôl trawsnewid o system TG Llywodraeth Cymru i system TGCh y Comisiwn ei hun yn ystod 2018-19.

13.2 Nodwyd nad oedd y cynllun wedi'i ddiweddaru i gynnwys y newidiadau arfaethedig ar ôl y prawf hyd yn hyn, ond y byddai hyn yn cael ei wneud maes o law.
**Gweithredu**: Rheolwr Cymorth Busnes **Erbyn**: 30 Medi 2019

13.3 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad ar brawf y Cynllun Parhad Busnes a'r casgliad bod y Cynllun yn ddigon cadarn.

## 14. Adroddiad Rheoli Risg

14.1 Ystyriwyd y cofrestri a'r polisi risg cyfredol. Rhoddwyd manylion am y newidiadau a wnaed i'r cofrestri risg Corfforaethol a Gweithredol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

14.2 Crybwyllwyd y byddai sgôr Risg Corfforaethol CR2 yn cael ei gostwng ar ôl recriwtio Swyddog Arolygon ychwanegol yn ddiweddar.

14.3 O ran Risg Gweithredol OP12, nodwyd bod y porth dysgu newydd i staff yn cynnwys hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Risgiau Tân, y byddai angen i'r holl staff ei gwblhau.

## 15. Adroddiad Monitro'r Gyllideb

15.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion yr adroddiad ar y gyllideb a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Comisiwn ar 25 Mehefin 2019.

**16. Rhoddion a Lletygarwch – Adroddiad a Datganiadau**

16.1 Nododd y Pwyllgor na wnaed unrhyw ddatganiadau o roddion a lletygarwch yn ystod 2019-20 hyd yn hyn.

**17. Cwynion**

17.1 Nododd y Pwyllgor na wnaed unrhyw gwynion i CFfDLC ar gyfer 2019-20 hyd yn hyn.

**18. Adroddiad a Pholisïau Twyll a Chwythu'r Chwiban**

18.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw achosion o dwyll na chwythu'r chwiban ar gyfer 2019-20, hyd yn hyn.

18.2 Adolygodd y Pwyllgor y polisïau Twyll a Chwythu'r Chwiban. Nodwyd nad yw manylion cyswllt Llywodraeth Cymru sydd wedi'u cynnwys yn y polisi Chwythu'r Chwiban yn gywir mwyach ac y dylid eu diweddaru.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Gorffennaf 2019

**19. Adroddiad ar Ddiogelwch Data TG**

19.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw ddigwyddiadau'n ymwneud â diogelwch data yn 2019-20 hyd yn hyn.

19.2 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad ar ddiogelwch TGCh a gyflwynwyd gan Sean Gaffney. Esboniodd fod nifer y diweddariadau i'r system weithredu yn is nag y dylai fod ar hyn o bryd, gan fod nifer o'r Surface Pros yn cael eu cyfnewid rhwng aelodau staff, gan olygu bod diweddariadau'n cael eu gosod ar y peiriannau hynny'n llai aml. Dylai'r sefyllfa hon wella dros yr ychydig fisoedd nesaf, ond os na fydd yn gwneud hynny, cynhelir ymchwiliad pellach i pam nad yw'r diweddariadau'n cael eu gosod.

19.3 Roedd y Comisiwn wedi cyflawni'r ardystiad Cyber Essentials Plus blynyddol, a fyddai'n rhoi lefel sylweddol o sicrwydd i'r Comisiwn ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

19.4 Nododd y Pwyllgor ganlyniadau cyfredol yr ymosodiadau gwe-rwydo ffug, a oedd yn dangos mai canran isel iawn yn unig o'r staff a fu'n agored i'r negeseuon e-bost gwe-rwydo ffug. Holodd y Pwyllgor a fyddai'n bosibl ymrestru aelodau staff sy'n cael eu twyllo gan y negeseuon e-bost ymosodol ffug ar gwrs hyfforddiant seiberddiogelwch fel mater o drefn. Cytunwyd i ymchwilio i'r posibilrwydd hwn.
**Gweithredu**: Rheolwr Cymorth Busnes / Sean Gaffney **Erbyn**: 27 Tachwedd 2019

19.5 Crynhodd Sean Gaffney y prif bwyntiau a oedd yn codi o Adolygiad y Comisiwn o Ddiogelwch y Cwmwl. Nodwyd sawl maes i'w gwella yn yr adolygiad, roedd y ddau brif faes fel a ganlyn:

- Nid yw'r Comisiwn yn defnyddio tagio labeli Office 365 ar hyn o bryd. Mae'r system hon yn caniatáu cyfyngu mynediad at ddogfennau electronig. Fodd bynnag, mae'n ddull cymhleth a thrwsgl nad yw Cymwysterau Cymru wedi'i fabwysiadu ychwaith ac mae o'r farn y byddai'n debygol o fod yn anghymesur ac yn amhriodol i gorff mor fach â'r Comisiwn, sydd â nifer isel o ddogfennau risg uchel. Nodwyd bod y Rheolwr Cymorth Busnes eisoes wedi llwyddo i gyfyngu ar allu staff i agor sawl ffolder sensitif heb y system tagio labeli. **Cytunwyd** na fyddai'n angenrheidiol i'r Comisiwn fabwysiadu'r system tagio labeli.
- Nid yw system y Comisiwn yn cydymffurfio â Microsoft Intune, sef teclyn rheoli symudedd ar sail cwmwl, sy'n helpu sefydliadau i reoli dyfeisiau symudol a ddefnyddir gan gyflogeion i agor ffeiliau a negeseuon e-bost. Roedd Cymwysterau Cymru wedi diffodd Microsoft Intune ar ei system gan ei fod o'r farn nad yw o unrhyw fudd.

19.6 **Cytunwyd** y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno yn un o gyfarfodydd y Comisiwn yn y dyfodol dan Unrhyw Fater Arall i benderfynu a oes angen ystyried y pwyntiau a godwyd gan yr adolygiad ymhellach.
**Gweithredu**: Rheolwr Cymorth Busnes / Sean Gaffney **Erbyn**: 30 Medi 2019

19.7 Holodd Lisa James a fyddai Brexit yn effeithio ar gadw data'r Comisiwn ar y cwmwl. Dywedodd Sean Gaffney nes i'r UE gydnabod diogelu data'r DU ni fyddai'n broblem, ond byddai Microsoft yn gallu cyfeirio data i'r Unol Daleithiau, yn ôl yr angen.

## 20. Unrhyw fater arall

20.1 Crybwyllodd Lisa James mai cyngor diweddar Llywodraeth Cymru i gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru yw nad oes angen iddynt gael cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru yn bresennol yng nghyfarfodydd byrddau neu bwyllgorau archwilio mwyach, felly hwn fyddai ei chyfarfod olaf o'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg. Diolchodd y Cadeirydd Dros Dro i Lisa am ei chymorth a chyngor yn ystod ei hamser yn mynychu cyfarfodydd Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg y Comisiwn. Cytunwyd y byddai copïau o bapurau'r cyfarfodydd yn cael eu hanfon at Lisa James o hyd, er gwybodaeth.

## 21. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf

20.1 Mae dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf fel a ganlyn:

27 Tachwedd 2019
26 Chwefror 2020